

Perchennog/Meddiannydd

Fy Nghyf/ My Ref: IF111/AMC

Dyddiad/ Date: 18/01/2021

Annwyl Syr/Fadam

Mae'r Cyngor wedi bod yn effro i'r ffaith ers amser maith bod trigolion eisiau i fesurau gael eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch amodau traffig yn Llantrisant.

Cafodd cynigion drafft eu rhannu mewn arddangosfa a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 lle cafodd cymuned Llantrisant gyfle i weld y cynigion a gwneud sylwadau ac awgrymiadau pellach mewn perthynas â'r cynllun drafft.

Arweiniodd yr arddangosfa at nifer o sylwadau ac awgrymiadau sydd wedi'u hystyried. Rydyn ni wedi ceisio ymgorffori cynifer ohonyn nhw â phosibl yn y cynllun.

Serch hynny, rhaid cydnabod bod cyfyngiadau ffisegol a thopograffeg yr ardal wedi golygu bod dim modd ymgorffori pob un o'r awgrymiadau yma. Er enghraifft, dydy hi ddim yn bosibl ehangu'r droedffordd trwy'r Stryd Fawr a chynnal lled ffordd sy'n ddigonol i ganiatáu i ddau gerbyd basio. Mae taflen sylwadau sy'n tynnu sylw at rai o'r ceisiadau mwyaf cyffredin wedi'i chynnwys er gwybodaeth.

Ers yr arddangosfa, mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid Grant Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r cynigion ymhellach a gweithredu cynllun erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r cynigion diweddaraf yn cynnwys cyflwyno terfyn cyflymder 20mya, mesurau lleihau cyflymder lle mae modd eu gosod, cyfyngiadau aros, pwyntiau croesi anffurfiol a lleihau'r terfyn cyflymder ar Gomin Llantrisant i 30mya.

Dylid nodi bod y gylchfan fach arfaethedig ar gyffordd Heol y Bont-Newydd a Dan Caerlan wedi'i dynnu o'r cynllun. Erbyn hyn, mae cynnig i greu cyffordd yn y lleoliad yma.

Cynigir hefyd cyflwyno terfyn pwysau a fyddai'n gwahardd cerbydau dros 7.5 tonnau rhag mynd i mewn i Lantrisant ac eithrio pan fydd angen cyrchu neu wasanaethu eiddo. Bydd cyfyngiad o'r fath yn lleihau nifer y cerbydau mwy sy'n teithio trwy Lantrisant er mwyn cael mynediad i ardaloedd cyfagos.

Mae manylion y cynlluniau arfaethedig yma i'w gweld yn y lluniau RCT Consult-01-P09 a RCT Consult-02-P08 sydd wedi'u cynnwys. Yn ogystal â hynny, mae modd eu gweld ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk/traffig

Y cam nesaf yn y broses fydd rhoi cyfnod o hysbysiad Cyhoeddus o'r cynigion, lle byddwn ni'n hysbysebu manylion y cynigion. Dyma gyfle i'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Pe hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun, anfonwch nhw drwy'r post, erbyn **08/02/2021**, at sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu mewn neges e-bost i GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Roedd ymateb da i rai o'r mesurau arfaethedig megis y manau croesi anffurfiol a'r droedffordd newydd yn Dan Caerlan yn yr arddangosfa yn gyffredinol. Gan fod y mesurau yma ddim yn gofyn am gyfnod o ymgynghori statudol, rydyn ni'n cynnig dechrau ar yr elfennau yma o'r cynllun cyn cwblhau'r ymgynghoriad statudol sy'n ofynnol ar gyfer elfennau eraill o'r cynllun. O'r herwydd, efallai y byddwch chi'n sylwi ar waith sy'n cael ei wneud ar y rhannau yma o'r cynllun.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir,

Andrew McGowan

Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig Senior Engineer, Traffic Management

Owner/Occupier

Fy Nghyf/ My Ref: IF111/AMC

Dyddiad/ Date: 18/01/2021

Dear Sir / Madam

The Council has long been aware of the desire from residents for measures to be introduced to address concerns regarding traffic conditions in Llantrisant.

Draft proposals were displayed during an exhibition held in October 2019 where the community of Llantrisant were provided with an opportunity to view the proposals and provide comments and further suggestions in respect to the draft scheme.

The exhibition generated a number of comments and suggestions which have been considered and where possible incorporated into the scheme.

However, it must be acknowledged that the physical constraints and topography of the area has meant that not all the suggestions could be incorporated. For instance it is not possible to widen the footway through High Street and maintain a road width sufficient to allow two vehicles to pass. A comment sheet highlighting some of the most common requests is included for your information.

Since the exhibition, the Council has been successful in securing Welsh Government Grant funding in order to further develop proposals and implement a scheme by the end of the current financial year. The latest proposals comprise of the introduction of a 20mph speed limit, speed reductions measures where it is possible to provide them, waiting restrictions, informal crossing points and reducing the speed limit on Llantrisant Common to 30mph.

It should be noted that the proposed mini roundabout at the junction of Newbridge Road and Dan Caerlan has been removed from the scheme and a raised flat top table junction is now proposed at this location.

It is also proposed to introduce a weight limit which would prohibit vehicles over 7.5 ton from entering Llantrisant except where there is a need to access or serve a property. Such a restriction will reduce the volume of larger vehicles travelling through Llantrisant in order to access neighbouring areas.

Details of the proposals are shown on the attached drawing RCT Consult-01-P09 and RCT Consult-02-P08 which may also be viewed at www.rctcbc.gov.uk/traffic

The next stage in the process will be to give a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by **08/02/2021**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [**trafficservices@rctcbc.gov.uk**](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk)

Some of the proposed measures such as the informal crossing points and new footway at Dan Caerlan were generally well received at the exhibition. As these measures do not require a period of statutory consultation, it is proposed to commence work on these elements of the scheme before the completion of the statutory consultation required for other elements of the scheme. Therefore you may notice works being carried out on these sections of the scheme.

I trust the above is of assistance.

Yours faithfully

Andrew McGowan

Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig Senior Engineer, Traffic Management